# HCC Market Bulletin


Mai 2021

**Mae disgwyl y bydd cyfanswm gwerth yr holl gynnyrch amaethyddol yng Nghymru yn cynyddu 6.2% i £1.7 biliwn ar gyfer 2020, a rhagwelir y bydd cyfanswm yr incwm o ffermio yn 25% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd £322 miliwn. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar hyn.**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ystadegol 'Allbwn ac Incwm Cyfun Amaethyddol' gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Mai eleni. Awgrymir y bydd ystadegau 2020 yn codi'n nes at yr hyn a gafwyd yn ystod 2017, yn dilyn dirywiad economaidd yn 2019. Rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth yr holl gynnyrch amaethyddol yng Nghymru ar gyfer 2020 yn £1.7 biliwn, sef 6.2% (neu £99 miliwn) yn fwy na'r ffigur amodol ar gyfer 2019

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn dangos gwerth cynhyrchu cig coch i'r sector amaethyddol yng Nghymru, oherwydd mae cynnyrch cyfunol gwartheg a defaid yn cyfateb i 44% o holl werth y cynnyrch amaethyddol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn. Dyma'r gyfran uchaf a gofnodwyd oddi ar 2016, pan oedd cynnyrch cyfunol gwartheg a defaid yn 45% o'r cyfanswm. Dylanwadodd y pandemig Covid-19 a Brexit ar yr ystadegau hyn. Yn benodol: O ran gwartheg (cig eidion a llaeth), rhagwelir cynnydd o 16.4% (neu £62 miliwn) i £437 miliwn yng ngwerth eu cynnyrch, oherwydd marchnad fywiog yn ystod 2020. Rhagwelir y cynnyrch crynswth uchaf am sawl blwyddyn ar gyfer gwartheg a defaid yng Nghymru. Fel canlyniad, bydd y ddau sector gyda'i gilydd yn gyfrifol am gyfanswm o £750 miliwn o gynnyrch amaethyddol Cymru.

Mae disgwyl cynnydd hefyd yng ngwerth cynnyrch amaethyddol y sector moch yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwnnw'n 34.3% (neu £2 filiwn), gan roi £8 miliwn o werth. Oherwydd y galw mawr am gig moch o wledydd Asia yn ystod y rhan fwyaf o 2020, yn dilyn yr achosion o glwy Affricanaidd y moch, bu prisiau'r farchnad dipyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn.




Rhagwelir cynnydd hefyd (o £17 miliwn i £1.2 biliwn) yng ngwerth y defnydd rhyngol (h.y. y nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu) . Yn y bôn, dyma'r costau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gynhyrchu. Fel arfer, bydd 'bwydydd' yn cyfrif am dros 30% o'r defnydd rhyngol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd gwerth y bwydydd yn 2020 yn cynyddu 3.1% (neu £11.5 miliwn) i £387 miliwn, sef y gwerth uchaf oddi ar 2014, am fod prinder gwellt, barlys, etc. yn golygu prisiau uwch. Felly, er bod disgwyl cynnydd yng nghynnyrch crynswth amaethyddiaeth yng Nghymru yn 2020, mae disgwyl cynnydd hefyd yng ngwerth y defnydd rhyngol. Canlyniad hyn yw bod disgwyl i gyfanswm yr incwm o ffermio yng Nghymru fod yn £322 miliwn, sef 25% (neu £65 miliwn) yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.




## PASG RHAGOROL!


Mae data gan Kantar ar gyfer y 12 wythnos hyd at 18 Ebrill 2021 yn dangos bod bron 15% yn fwy o gig oen o ran cyfaint wedi cael ei brynu yn siopau Prydain nag yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Cafwyd gwelliant mawr yng ngwerthiant coesau cig oen i'w rhostio mewn cymhariaeth â'r Pasg y llynedd – a hynny oherwydd y cyfnod clo cyntaf yn y DG.

Drwyddi draw, gwariwyd £190 miliwn, sef bron 19% yn fwy nag yn ystod Pasg 2020.

## Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





**Cynnyrch Cig Eidion yn y DU**


### GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer yr holl wartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 216.5c/kg ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Mai, sef 2.8c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris cyfredol yn dda mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, a bron 28c yn uwch nag ydoedd flwyddyn yn ôl a 31c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 185.8c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Mai, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych yn 392.1c/kg – 5.6c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond 59c yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 391.7c/kg (4.7c yn is nag yn yr wythnos flaenorol). Y pris am deirw ifainc oedd 386.4c/kg (-6.0c), a'r pris am fuchod difa oedd 276.5c/kg (+1.2c).

Lladdwyd 225,400 o wartheg yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Ebrill, sef 1.4% yn fwy nag ym mis Ebrill 2020. Lladdwyd 171,000 o wartheg dethol yn ystod y mis, sef 5.5% yn fwy o'r naill flwyddyn i'r llall, a gwelwyd cynnydd ym mhob categori. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y gwartheg llawn dwf a laddwyd mewn cymhariaeth â 2020, sef cynnydd o 6.3% i gyfanswm o 48,500. Mae hyn yn golygu fod cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn ystod pedwar mis cyntaf 2021 yn 3.2% yn llai nag ydoedd y flwyddyn flaenorol. Cynhyrchwyd 75,800 tunnell o gig eidion yn ystod mis Ebrill, sef 2.7% yn fwy na'r llynedd, am fod mwy o wartheg wedi eu lladd ac am fod y carcasau'n drymach.

## Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru




*Prisiau wyn tymor hen / newydd cyfun i 3edd wythnos mis Mai, pris newydd yn unig tan Rhag*


**Cynnyrch Cig Defaid yn y DU**


### DEFAID

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Dyfynbris Ansawdd Safonol cyfartalog ar gyfer ŵyn dethol pwysau byw mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru wedi tueddu i fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Mai, cwympodd pris ŵyn Tymor Newydd 9.3c i gyfartaledd o 320.4c/kg. Er gwaethaf y gostyngiad o'r naill wythnos i'r llall, roedd y prisiau'n dal i fod yn 57.1c yn uwch na blwyddyn yn gynharach, a 80.2c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2016-20: 240.2c/kg). Roedd prisiau mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru yn £83.40 y pen ar gyfartaledd, sef £1.00 yn is na'r wythnos flaenorol ond £18.40 yn uwch nag yn 2020. Roedd prisiau ŵyn pwysau marw ym Mhrydain yn 669.4c/kg yn yr wythnos yn diweddu 22 Mai (+123.8c ar y flwyddyn).

Nifer yr holl ddefaid a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU ym mis Ebrill oedd 960,000, sef 7.5% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 7.6% yn llai o ŵyn dethol na'r llynedd (cyfanswm o 864,800), a lladdwyd 7.0% yn llai o famogiaid difa a hyrddod (cyfanswm o 95,200). Hyd yma eleni, lladdwyd 8.2% yn llai o ŵyn (cyfanswm o 3.4 miliwn), a lladdwyd bron 23% yn llai o ddefaid difa. Roedd y carcasau ychydig yn drymach yn ystod mis Ebrill, gan ddod â chyfanswm pwysau'r cig defaid a gynhyrchwyd i 22,600 tunnell, sef 5.4% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

## Pris cyfartalog yr holl foch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Cynnyrch Porc yn y DU**

### MOCH

Mae prisiau moch wedi parhau i wella ers dechrau mis Mawrth, ac roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ar gyfer yr wythnos yn diweddu 15 Mai (153.9c/kg) yn 1.7c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Dyma'r nawfed wythnos yn olynol i'r pris gynyddu; roedd y cynnydd yn 10.2c yn ystod y cyfnod. Mae'r pris cyfartalog presennol yn is na'r prisiau uchel a gafwyd yn 2020 (13.7c yn is), ond mae'n 6.2c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Er gwaethaf y cynnydd yn yr APP cyfartalog, mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu bod cynnydd ym mhrisiau bwydydd yn golygu llai o elw. Mae'r prisiau yn Ewrop wedi sefydlogi i raddau. Roedd pris cyfeirio'r UE yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Mai (134.2c/kg) yn 0.6c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol.

Lladdwyd cyfanswm o 1.0 miliwn o foch yn lladd-dai'r DU ym mis Ebrill, sef 12.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol, ac mae hyn yn awgrymu fod y lladd-dai'n delio â'r ôl-groniad o foch a fu ar y ffermydd. Y prif reswm am y cynnydd oedd bod 111,200 yn fwy o foch heb fagu yn cael eu hanfon i'r lladd-dai, ac roedd y carcasau'n pwyso 87.7kg ar gyfartaledd sef 1.6kg yn drymach na'r llynedd. Golygodd y cyfuniad o fwy o foch a charcasau trymach fod 15.8% yn fwy o borc (cyfanswm o 93,900 tunnell) wedi ei gynhyrchu ym mis Ebrill, sef mwy na'r un mis ers y flwyddyn 2000, ar wahân i fis Mawrth 2021.